# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ40063, a gyhoeddyd gan Sue Essex, y Gweinidog Cyllid, ar 22 Rhagfyr 2004

**At William Graham:**

Yn dilyn eich cwestiwn llafar i mi ar 1 Rhagfyr 2004 ynghylch yr arian sydd ei angen i gynnal a datblygu adeiladau sy'n eiddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn ystod 2005 neu a gaiff eu cymryd ar brydles ganddo, a'm hateb dilynol, ymgymrais â'r gwaith o ysgrifennu atoch mewn ymateb i'ch cwestiwn atodol. Yr oedd eich cwestiwn atodol yn gofyn am gadarnhad bod y costau rhedeg blynyddol amcangyfrifiedig yn fy ateb yn cynnwys Llywodraeth y Cynulliad yn ailddefnyddio'r safle LG yng Nghasnewydd.

Mewn Ymateb i'r pwynt a godwyd gennych dylwn ychwanegu nad yw'r ffigurau a roddwyd i chi yn yr ateb gwreiddiol i Gwestiwn y Cynullaid yn cynnwys y costau sy'n gysylltiedig â chynnal ac addasu safle'r LG, oherwydd ni chaiff yr adeiladau eu defnyddio'n uniongyrchol gan Lywodraeth y Cynulliad.

Deuir o hyd i ddigon o arian i gynnal y safle drwy reoli adnoddau yn ystod y flwyddyn.

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ40051, a gyhoeddyd gan Sue Essex, y Gweinidog Cyllid, ar 20 Rhagfyr 2004

**At Lisa Francis:**

Yn dilyn yr ymrwymiad a wnaed gennyf i chi yn y Cyfarfod Llawn ar 1 Rhagfyr 2004, ysgrifennaf atoch gyda'r wybodaeth y gwnaed cais gennych amdani yn eich cwestiwn atodol i gwestiwn OAQ40051 yn ymwneud ag adeilad newydd y Cynulliad.

O'r gyllideb o £6.7 miliwn ar gyfer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu ac offer ar gyfer y cyfryngau, gallaf eich hysbysu mai cost amcangyfrifiedig y seilwaith yw £4.5 miliwn. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys offer rhwydwaith ac offer clyweled, darparu caledwedd a gosodiadau arbenigol.

Gobeithio y bydd y wybodaeth hon yn ddefnyddiol i chi.

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ40039 a gyhoeddwyd gan Carwyn Jones, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad, ar 4 Tachwedd 2005

**At Alun Ffred Jones:**

Ar 1 Rhagfyr 2004, mewn cwestiwn atodol i'r Gweinidog Cyllid, gofynnwyd cwestiwn gennych ynghylch swm o arian y Trysorlys a gaiff ei wario ar gynllun Tir Cynnal yn 2005-06. Fel y Gweinidog sydd â chyfrifoldeb ariannol dros y cynllun Tir Cynnal, trosglwyddwyd y cwestiwn i mi i'w ateb.

Ym Mhwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad ar 3 Tachwedd, cyhoeddwyd y byddai £1.5 miliwn yn cael ei ddyrannu i'r cynllun Tir Cynnal a chynhelir hyn gan arian cyfatebol Trysorlys Ei Mawrhydi. Yn y dyfodol, mae'n anodd rhagweld faint a gaiff ei wario ar gynllun Tir Cynnal o gofio na wyddys faint o ffermwyr fydd yn rhan o'r cynllun, ond sicrhawyd arian cyfatebol ar gyfer y cyfnod a gwmpesir gan yr adolygiad o wariant diweddar.

Yr wyf wedi anfon copi o'm hymateb at y Gweinidog Cyllid.